

PUM GWEITHRED AR GYFER Y PUM MLYNEDD NESAF



Mae creu Cymru gyfartal yn gyfrifoldeb ar bob un ohonom. Rydym am weld Cymru lle mae menywod o bob cefndir a phrofiad yn cael eu hannog i gyflawni a blodeuo.

Mae menywod yn parhau i brofi rhwystrau o fewn yr economi ac yn y gweithle sydd ddim yn broblem i ddynion. Gwyddom fod menywod yng Nghymru yn parhau i ennill llai na dynion oherwydd natur y gwaith neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu anghymesur.

Nid yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y manau lle gwneir penderfyniadau. Heb y lleisiau amrywiol o fewn yr ystafell, gall nifer o faterion gael eu hanwybyddu ac effaith penderfyniadau ar grwpiau ymylol gael eu hesgeuluso.

Mae menywod hefyd yn parhau i ddiodeff o drais ac aflonyddu, sy'n effeithio ar bob agwedd o'u bywydau, gan gynnwys penderfyniadau ar beth i wisgo, lle i fynd, a sut i gyrraedd yno.

Mae mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb rhywedd yn waith i bawb. Gyda llywodraeth leol yn chwarae rôl allweddol ym mywydau pobl o ddydd i ddydd, mae gan awdurdodau lleol nifer o offerynnau ar gael iddynt ar gyfer mynd i'r afael â'r anghyfartaledd strwythurol a brofir gan ferched.

Mae rhoi cyfartaledd rhywedd yng nghanol pob penderfyniad yn enghreifftiau o arfer dda wrth gynllunio polisiau. Bydd gwneud Cymru'n wlad gyda chyfartaledd rhywedd yn cymryd amser, ac felly rydym yn galw ar awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar y pum maes canlynol yn ystod y pum mlynedd nesaf er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau menywod yng Nghymru, a'n symud yn nes i'r cyfeiriad cywir o gael Cymru gyfartal o ran rhywedd.

1 Cynrychiolaeth 2 Gofal Plant

Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ar bob lefel o lywodraeth, ac yn arbennig felly ar lefel llywodraeth leol. Mewn etholiadau blaenorol, dim ond 29% o gynghorwyr lleol oedd yn fenywod.¹ Disgwyliwn i weld beth fydd canlyniadau etholiadau eleni, ond gan fod amcangyfrifon yn dangos mai oddeutu traean o'r ymgeiswyr sydd yn fenywod, mae'n hanfodol cymryd camau i sicrhau amrywiaeth o gynrychiolwyr lleol.

Rhaid i arweinwyr llywodraeth leol wella cynrychiolaeth menywod drwy:

- Ymrwmo i gabinet sy'n gytbwys o ran rhywedd
- Creu a chyhoeddi cynllun gweithredu clir ar sut y byddant yn gwarantu cynrychiolaeth fwy amrywiol mewn llywodraeth leol
- Cadw'r gallu i ymuno gyda chyfarfodydd cyngor o bell
- Ariannu a chyflawni prosiectau sy'n cynyddu niferoedd ac amrywiaeth y menywod sy'n sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol

Mae prinder gofal plant fforddiadwy yn parhau i fod yn rhwystr allweddol i fenywod sy'n dymuno gweithio a datblygu yn y gweithle. Mae gan awdurdodau lleol rôl hanfodol i sicrhau bod darpariaeth gofal plant yn cwrdd ag anghenion y rhieni yn ogystal â sicrhau bod mynediad i wybodaeth am ofal plant.

Dylai awdurdodau lleol arwain drwy esiampl gan wella eu polisiau a'u cefnogaeth i rieni, ochr yn ochr â gwella mynediad at wybodaeth am gefnogaeth o ran gofal plant i bob rhiant drwy:

- Creu polisiau cynhwysfawr sy'n ystyriol o deuluoedd sy'n berthnasol i gynghorwyr a staff i gefnogi mwy o rieni i mewn i swyddi etholedig a chyflogaeth
- Ariannu Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn briodol fel ei fod yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am yr holl gymorth gofal plant y mae rhieni'n gymwys i'w gael
- Sicrhau bod ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn gwbl ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant a'r holl gymorth arall sydd ar gael i'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw

- Sicrhau bod gwybodaeth am gymorth gofal plant yn hygyrch, yn enwedig i'r rhai lle nad yw'r Gymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt



3 Gofal cymdeithasol

Ym maes gofal cymdeithasol, menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithlu. Er ei fod yn hanfodol i'n bywydau a'r economi, fel cymdeithas, nid ydym yn rhoi'r gwerth dyledus nac yn gwerthfawrogi gofal cymdeithasol na'r rhai sy'n gweithio yn y maes.

Rhaid i lywodraeth leol gydnabod pwysigrwydd a gwerth gofal cymdeithasol trwy:

- Fabwysiadu siarter gomisiynu foesebol ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n cynnwys gofynion ar gyfer telerau ac amodau sylfaenol gan gynnwys talu'r Cyflog Byw go iawn, terfynau ar gcontract dim oriau, gwella sicrwydd swyddi, gwella cydfargeinio, gwella mynediad i hyfforddiant a gwell llwybrau datblygu
- Gweithredu'r un egwyddorion o gomisiynu moesebol i wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor

4 Trafnidiaeth a Phynllunio

Mae menywod yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac yn profi manau cyhoeddus mewn ffordd wahanol. Yn rhy aml o lawer, gwneir penderfyniadau trafndiaeth a chynllunio yn seiliedig ar y syniad o ddefnyddiwr gwrywaidd 'niwtral', gan anwybyddu anghenion, diddordebau ac arferion menywod a merched ifanc. Mae menywod yn dibynnu mwy ar drafndiaeth gyhoeddus, yn cymryd teithiau byrrach, sawl gwaith mewn diwrnod ac yn llai tebygol o fod â mynediad at gar². Gwyddom hefyd bod manau cyhoeddus yn cael eu cynllunio mewn ffyrdd sy'n atgyfnerthu anghyfartaledd rhywedd sy'n ei gwneud yn anoddach i fenywod deimlo'n ddiogel, a chael mynediad i waith ac addysg.

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod profiadau a diogelwch menywod yn ganolog i benderfyniadau trafndiaeth a chynllunio drwy:

- Wella diogelwch cerbydau a gorsafoedd trafndiaeth gyhoeddus, wedi'u llywio gan anghenion menywod, ochr yn ochr â hyfforddi'r rhai sy'n gweithio mewn trafndiaeth gyhoeddus ar sut i fonitro, adrodd ac atal achosion o aflonyddu rhywiol neu gam-drin ar drafndiaeth gyhoeddus
- Sicrhau bod prisiau tocynnau a gostyngiadau ddim yn ffafrio patrymau gwaith a theithio 'traddodiadol' yn unig
- Diwygio gweithdrefnau i sicrhau bod y rhai sy'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau yn clywed gan fenywod a merched ifanc er mwyn

- iddynt ddeall eu hofnau ac felly'n rhoi ystyriaeth ac yn gweithredu ar hynny o gychwyn y broses gynllunio
- Sicrhau bod pob datblygiad newydd megis strydoedd, parciau, gorsafoedd trên a bysiau a safleoedd bysiau wedi'u goleuo'n dda

2 Chwarae Teg (2016) Working Women's Journeys



5 Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Gydag awdurdodau lleol yn cael pwerau a chyfrifoldebau newydd ynghylch sut y caiff Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ei gwario cyn bo hir, mae'n hanfodol bod llywodraeth leol yn paratoi ar gyfer y ddyletswydd newydd hon ac yn cydnabod y rôl y gall ffrydiau ariannu fel hyn ei chael wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywedd.

Dylai arweinwyr awdurdodau lleol baratoi ar gyfer gweinyddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU trwy:

- Gydnabod rôl unigryw sefydliadau'r trydydd sector o ran darparu cymorth a gwasanaethau arbenigol i bobl a chymunedau ledled Cymru
- Blaenoriaethu ymyriadau sy'n lleihau anghydraddoldeb ar gyfer grwpiau penodol o bobl a chymunedau, yn ogystal â llefydd.

- Sefydlu perthynas waith gyda'r awdurdodau lleol eraill a sefydliadau'r sector gwirfoddol o fewn rhanbarth awdurdodau lleol er mwyn osgoi dyblygu ymdrech a gwaith
- Creu cynllun ar gyfer sut i ariannu a chyflawni prosiectau Cymru gyfan
- Ymgysylltu â phartneriaid yn y trydydd sector sydd â hanes llwyddiannus o gyflawni'n llwyddiannus gyda grwpiau mylol a difreintiedig
- Sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ffrydio i'w cynlluniau i sicrhau bod pob prosiect yn cyfrannu'n weithredol at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.



Chwarae
Teg



@chwaraeteg



07496 766804



policyandresearch@chwaraeteg.com

